



Llwybr Fothergill



Taith 2

Llwybr Fothergill

Taith gymedrol, 6.5 milltir - 10 cilomedr, 2 awr a hanner

Man cychwyn - Gwaith Haearn Sirhywi (SO 143 100).



Gwaith Haearn Sirhywi

Sefydlwyd Gwaith Haearn Sirhywi yn 1778. Erbyn 1796, roedd Richard Fothergill yn un o'rartneriaid. Ym 1818, cymerodd cwmni Glyn Ebwy berchnogaeth o'r gwaith ac erbyn 1841 ychydig llai na 1000 o bobl oedd yn gweithio yno. O flaen y ddau fwa, fe welwch "faich ffwrnais" – lwmp mawr o haearn a sorod. Dyma'r unig beth sydd ar ôl o ffwrnais oedd yn sefyll ar ei ben ei hun fry uwchben y bwâu. ¹³



Gadewch y safle trwy'r lon gul i'r gogledd a dilyn Dukestown Road. Ar ôl 150m byddwch yn pasio'r hen Siop Tryc (yr "Armoury Stores" bellach) ar y dde.

Trowch i'r dde ar ôl y Siop Tryc a dringo'r allt am 150m heibio chwe rhes o dai ar yr ochr chwith. Cymrwch y trac ar y chwith sy'n rhedeg o flaen ystâd tai Ystrad Deri. Mae hwn yn dilyn lein Rheilffordd Trefil (1796) oedd yn cario calchfaen o Drefil i Waith Haearn Sirhywi.

Ar ôl 300m, cymrwch y ffordd dde yn y llwybr. Ar ôl 350m arall byddwch yn dod at lwybr tair rheilffordd gynnar – lein a adeiladwyd yn 1813 i fynd â chalchfaen o Drefil i Waith Haearn Glyn Ebwy, Rheilffordd Trefil a Rheilffordd Rhasau

a adeiladwyd yn 1796 i gysylltu Trefil a Sirhywi gyda Cendl.

Ar ôl 450m fe ddewch at dro sydyn i'r chwith sy'n mynd â chi tuag ar Ffordd Blaenau'r Cymoedd (A465) - mae'r A465 yn dilyn cwrs Rheilffordd Merthyr, Tredegar a'r Fenni (yr M T & A). Cafodd ei sefydlu yn 1859, ac adeiladwyd y draphont Blaen y Cwm (Y Naw Bwa) i gario'r lein ar draws afon Sirhywi yn 1864.

Ar ôl 100m mae'r trac yn troi i'r dde yn sydyn – cymrwch y trac hwn a byddwch yn cyrraedd y ffordd sy'n arwain o Lyn Ebwy i Ystad Ddiwydiannol Rhasau. Trowch i'r chwith i groesi'r bont dros yr A465.

Dyma safle Peiriant Trefil a adeiladwyd i bwysu llwythi wagenni o galchfaen oedd yn dod o'r chwareli i'r gweithfeydd haearn yn Sirhywi, Cendl a Glyn Ebwy.

Ar ôl croesi'r bont dros yr A465 parhewch yn syth ymlaen at y gylchfan. Mae llwybr ceffylau "Beaufort Wells" yn gorwedd yn union ar yr ochr arall. Yma roedd Rheilffordd Trefil a gallwch ei ddilyn am bron i 3km i fyny at Chwareli Trefil.

Ar ôl 1.4km fe ddewch at draphont fawr o bridd. Yma roedd rheilffordd 1796 yn gwneud dolen i fyny'r cwm ond pan newidiwyd y lein i reilffordd lled safonol yn 1937, adeiladwyd y draphont i dorri'r ddolen. Mae'r rheilffordd o'r 18fed ganrif yn gadael y draphont ac yn mynd i'r gogledd i flaen y cwm lle mae dwy bont fach yn croesi canghennau Nant Milgatw. Ar ochr orllewinol y cwm, mae "cawsai" a phont ardderchog eu cyflwr yn cario'r rheilffordd dros nant fach.

Cariwch ymlaen i'r chwareli. Wrth i chi agosáu byddwch yn ymuno gyda 'Railway Terrace'.

O'ch blaen roedd y chwareli oedd yn cyflenwi'r Gweithfeydd Haearn yn Sirhywi, Cendl a Glyn Ebwy.



Traphont Milgatw, 1937

Trowch i'r chwith i lawr yr allt i ymuno â'r ffordd waelod.

Y chwarel isaf hon oedd yn cyflenwi calchfaen i'r gweithiau haearn yn Nhredegar a Rhymni. Y ffordd trwy'r pentref yw lein Tramffordd Tredegar (1804) oedd yn mynd â charreg i Waith Haearn Tredegar a Thramffordd Trefil Hall (1815) oedd yn rhedeg i waith haearn Benjamin Hall yn Rhymni.

Trowch i'r dde a pharhau mor bell â Thafarn Tŷ Uchaf.



Chwarel Trefil, 1938

Yma, roedd Tramffordd Trefil Hall yn ymrannu. Rhedai'r naill gangen i fyny at y chwareli a'r llall yn parhau fel Tramffordd Bryn Oer (1814-15) am 8 milltir i lawr at y gamlas yn Nhalybont ar Wysg. Gellir gweld Tramffordd Trefil Hall fel trac i'r dde o'r adeilad coch rhyw 200m heibio'r dafarn. Roedd cloddfa silica yma o 1813 ymlaen. Roedd y prif waddodion yn gorwedd i'r gogledd o Dafarn Tŷ Uchaf i'r chwith o'r ffordd. Yma y gwyrwyd Nant Trefil i gadw'r gwaith yn sych.

O Dafarn Tŷ Uchaf dychwelwch i lawr y ffordd. Ar ôl 100m byddwch yn pasio 'Rhymney Row' ar y dde a adeiladwyd yn 1837-8 gan gwmni Rhymni.

Ewch ymlaen ar hyd y ffordd am y 400m nesaf a chroesi'r grid gwartheg. Gellir gweld Tramffordd Tredegar yn gwyo i ffwrdd i'r chwith wrth y grid gwartheg. Roedd Tramffordd Trefil Hall yn dilyn y cwrs yn syth trwy'r hafn.

Parhewch am ychydig dan gilometr i Fferm Penrhyn. Ychydig cyn y fferm ar y dde gallwch weld gwely Tramffordd Trefil Hall yn gadael y ffordd i gyfeiriad Rhymni.



Tramffordd Bryn Oer

Cariwch ymlaen ar hyd y ffordd, gan gymryd gofal mawr o gerbydau'r chwarel sy'n defnyddio'r llain hon o'r ffordd. Wrth i chi fynd i mewn i ystad tai Nant y Bwch, mae Tramffordd Tredegar yn disgyn i lawr ychydig i'r chwith ond yn aros yn gyfochrog â'r ffordd.

cewch ddilyn ffordd amgen dros ddyfrbont Nant y Bwch, gan ailumuno â'r brif daith ger Twyn Star, ar hyd Station Road, gan basio o dan yr A465. Mae hyn yn dod â chi nôl i gylchfan yr A4048. ¹⁵

Mae'r gylchfan yn gorwedd ar gyffordd Tramffordd Tredegar sy'n dod i lawr o Drefil a thramffordd arall sy'n rhedeg o Ffwrnais Undeb Rhymni.

Ar y gylchfan ar yr A4048 trowch i'r chwith i St Luke's Road. Ger Pont y Widw, croeswch y bont ac yna troi i'r chwith ar y llwybr cerdded sy'n rhedeg i fyny i'r gored oedd yn cyflenwi Gwaith Haearn Sirhywi. Gellir cyrraedd y draphont drawiadol a adeiladwyd yn 1864 i fynd â Rheilffordd Merthyr, Tredegar a'r Fenni ar draws y dyffryn trwy ddilyn y llwybr cerdded o'ch blaen.

Dilynwch St Lukes Road i Police Row a Twyn Star. Yma gallwch weld cofeb i'r rhai a laddwyd yng ngwrthryfel y Siartwyr yn 1839. Ffurfiwyd y gyfrinfa gyntaf o Siartwyr ym Mlaenau Gwent tua diwedd 1838 yn y Star Inn. Roedd Zephaniah Williams yn byw gerllaw yn 10, Police Row a'i ffrind a'i gyd-radical, John Morgan, oedd yn cadw'r dafarn.

Ym mis Mai 1839, cyfarfu rali fawr ar Gae Star (ystad tai Twyn Star bellach) ¹⁴ gyda bron i 5,000 o bobl yn bresennol. Zephaniah Williams a arweiniodd Siartwyr Blaenau Gwent trwy'r glaw llifeiriol ar eu gorymdaith anffodus i Gasnewydd ar noson Tachwedd y 3ydd 1839.



Gwaith Haearn Sirhywi

Ymhellach ymlaen byddwch yn croesi'r Nant Melyn ger y "The Oak". Os edrychwch dros ochr dde'r bont fe welwch dystiolaeth o gored oedd yn cyfeirio dŵr i'r gamlas a redai i lawr i Waith Haearn Sirhywi.

Ewch ymlaen ar hyd y ffordd heibio i'r Siop Tryc a chymryd y lon yn ôl i Waith Haearn Sirhywi.

Ceir rhestr gyflawn o gelfweithiau ar Lwybr Homfray.

Er mwyn gadael inni wybod a fuoch chi'n mwynhau'r daith neu am ragor o fanylion cysyllter â ni ar 01495 355937 / 07968 472812
alyson.tippings@blaenau-gwent.gov.uk

